Datganodd y Cynghorwyr Sir L.V. Corfield, D.E. Davies, E.R. Davies, L.R.E. Davies, D.O. Evans, V.E. Evans, S.M. Hayes, A. Holloway, G.G. Hopkins, D.C. Jones, E.M. Jones, G.M. Jones, H. Lewis, P.E. Lewis, W.J.T. Powell, D.R. Price, G.W. Ratcliffe, J.G. Shearer, R.G. Thomas, G.I.S. Williams a J.M. Williams fuddiant personol anrhagfarnus yn eitem C44 – 2015 Ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diwygio Llywodraeth Leol, fel aelodau Cynghorau Tref neu Gymuned.

Datganodd y Cynghorydd Sir R.I. George fuddiant personol anrhagfarnus yn eitem C44 – 2015 Ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diwygio Llywodraeth Leol, fel aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganodd y Cynghorydd Sir G.G. Hopkins fuddiant personol anrhagfarnus yn eitem C44 – 2015 Ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diwygio Llywodraeth Leol, fel Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn newid trefn yr eitemau ar y rhaglen gan fod yn rhaid i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr adael y cyfarfod yn gynnar i fynychu cyfarfod gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.

4.	<b>CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD</b>	<b>CC36 – 2015</b>
----	--	--------------------

#### **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

Ar ôl sylwadau ar Gyfryngau Cymdeithasol lle mae Aelod Etholedig o Gyngor Sir Powys yn honni bod gan y Prif Swyddog Gweithredol deledu plasma yn ei swyddfa, ynghyd â phecyn teledu lloeren, a allai'r Arweinydd wneud datganiad ar y mater hwn, ac wrth wneud hynny, ateb y cwestiynau canlynol:-

- a) **A oes gan y Prif Swyddog Gweithredol deledu yn ei swyddfa, a beth yw'r union bwrpas neu ddefnydd?**
- b) **A oes unrhyw becynnau lloeren ar gael ar y set deledu hon?**

*Diolch am eich cwestiwn. Rwyf wedi siarad â'r Prif Weithredwr sydd wedi cadarnhau bod teledu yn ei swyddfa a gaiff ei ddefnyddio fel cyfleustra amlgyfrwng. Nid yw'n deledu plasma.*

*Cadarnhaodd y Prif Weithredwr hefyd bod y teledu yn derbyn sianeli teledu gwasanaethau am ddim trwy gyfrwng Freesat.*

*Mae'r Prif Weithredwr yn garedig wedi cytuno briffio cyfarfod y Cyngor ar bwrpas a defnydd y cyfleustra amlgyfrwng.*

Gofynnodd yr Arweinydd am gyngor gan y Swyddog Monitro a gadarnhaodd ei bod y briodol i'r Prif Weithredwr friffio'r Cyngor. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oedd y teledu yn ei swyddfa yn set plasma ac nid oedd pecyn teledu Sky, ond pecyn Freesat. Dywedodd bod angen iddo gael, fel ymatebwr categori un, fynediad at sianeli newyddion. Dywedodd hefyd bod y teledu yn cael ei ddefnyddo fel pecyn amlgyfrwng ar gyfer cyflwyniadau a chynadleddau fideo trwy Lync. Ystyriaeth sylfaenol oedd yr angen i leihau faint o amser a dreuliyd yn teithio gan fod hyn yn ei gynorthwyo i ymdopi â'i anabledd.

Nid oedd cwestiynau atodol.

#### **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Gwilym Williams**

**Yng nghyfarfod llawn diwethaf y Cyngor, gofynnais i'r arweinydd faint o ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Bowys a faint roeddynt yn ei gostio; darparodd yr arweinydd yr wybodaeth.**

Fy ngwestiwn atodol yw faint o asiantaethau a gyflogir gan Bowys a faint maent yn ei gostio; addawyd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei hanfon ataf; ar ôl nifer o geisiadau hyd at ddyddiad y llythyr hwn [8fed Ebrill 2015], nid wyf wedi derbyn ymateb.

Hoffwn felly ofyn fy nghwestiwn atodol o gyfarfod llawn blaenorol y Cyngor. Faint o asiantaethau a gyflogir a faint maent yn ei gostio i Gyngor Sir Powys?

*Isod mae dadansoddiad o'r costau a achosir trwy gyflogi staff asiantaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15*

*Crynodeb o gostau Asiantaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15*

	CYFANSWM
<i>Gofal Cymdeithasol Owedolion</i>	£304,137.70
<i>Gwasanaethau Plant</i>	£407,780.48
<i>Tai</i>	£166,693.28
<i>Gwasanaethau Proffesiynol</i>	£ 62,673.48
<i>Gwasanaethau Busnes</i>	£ 13,671.33
<i>Newid a Llywodraethu</i>	£ 26,298.47
<i>Prifyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu</i>	£179,097.67
<i>Adfywio, Comisiynu Eiddo</i>	£113,950.00
<i>Hamdden ac Adloniant</i>	£ 13,668.09
<i>Cyfanswm</i>	£1,287,970.50

*Gan nad yw staff asiantaeth yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Cyngor, nid oes ganddo gyfrifldeb statudol i adrodd ar nifer y staff asiantaeth a gyflogir, fel y mae angen iddo wneud ar gyfer staff a gyflogir yn uniongyrchol ac a delir trwy'r system gyflogres. At hyn, datganolir cyfrifoldeb am gyflogi staff asiantaeth i'r maes gwasanaeth ac felly nid oes cofnod canolog o niferoedd staff asiantaeth a gyflogir y gellir ei gwestiynu'n hawdd. Gellir ond canfod yr wybodaeth a geisir trwy adolygiad manwl o anfonebau sy'n ymwneud â gwariant asiantaeth. Mae'r gwaith hwn ar y gweill a byddaf yn ceisio rhoi diweddariad llafar yng nghyfarfod y Cyngor.*

Gofynnodd y Cynghorydd Williams ei gwestiwn atodol ar a oedd yr Arweinydd yn medru rhoi diweddariad llafar i'r Cyngor. Ymddiheurodd yr Arweinydd ar yr amser roedd wedi ei gymryd i gasglu ynghyd yr wybodaeth yn yr ateb. Byddai'n dosbarthu gwybodaeth bellach i'r Aelodau trwy ebost.

**Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Gwilym Williams**

**Mewn perthynas â'r wybodaeth a roddwyd gan yr arweinydd i gyfarfod llawn diwethaf y Cyngor ar ymgynghorwyr, a fedr ddweud wrthyf faint o'r ymgynghorwyr hyn y darparwyd gwybodaeth ar eu cyfer sy'n cael eu cyflogi gan Gyngor Sir Powys am fwy na blwyddyn?**

*Mae'r daenlen a gyflenwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor wedi ei diweddarau gyda nodyn ar hyd pob contract ac mae ynghlwm. (Copi wedi ei ffeilio gyda'r cofnodion a lofnodwyd.)*

*Nid oes gan y Cyngor gontractau penagored i gyflenwi ymgynghorwyr, gan eu bod yn tueddu i ymwneud â chymorth ar gyfer prosiectau cyfnod amser penodol ar wahân ac nid ydym yn cyflogi ymgynghorwyr / ymgynghoriaethau i gyflawni rolau sefydledig yn y Cyngor.*

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Williams oedd am ba hyd y byddai angen cyflogi ymgynghorydd nes y byddai'n rhatach i'r Cyngor gyflogi ei staff ei hunan? Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n dosbarthu ymateb i'r Aelodau.

Gadawodd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr y cyfarfod i fynychu cyfarfod gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

<b>5.</b>	<b>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</b>	<b>CC40 – 2015</b>
-----------	---------------------------------	--------------------

Rhoddodd y Cadeirydd fanylion y digwyddiadau a fynychodd ers y cyfarfod diwethaf. Gwahoddodd yr Aelodau i ginio elusennol roedd yn ei gynnal yn Nhrefeglwys ar 3ydd Mai.

<b>6.</b>	<b>CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD</b>	<b>CC41 – 2015</b>
-----------	---------------------------------	--------------------

Roedd yr Arweinydd wedi gadael y cyfarfod felly ni chymerwyd yr eitem hon.

Gadawodd y Cyngorwyr Sir G. Bowker, K.W. Curry, F.H. Jump, M.C. Mackenzie, J.G. Morris a K.S.Silk y cyfarfod.

<b>7.</b>	<b>ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR</b>	<b>CC42 – 2015</b>
-----------	------------------------------------	--------------------

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol - Pobl, yr adroddiad ar ran y Prif Weithredwr. Dywedodd y byddai cyfrifiadau'r Etholiad Cyffredinol yn cael eu cynnal yn y Pafiliwn yn Llandrindod a Chanolfan Hamdden Flash yn y Trallwng. Roedd paratodau ar y gweill ar gyfer cyfranogiad y Cyngor yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol a fyddai' hyrwyddo'r Sir fel cyrchfan hamdden a recriwtio gofalwyr maeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol bod partneriaeth gyda busnesau a Cheredigion o'r enw Tyfu Canolbarth Cymru yn cael ei datblygu. Hysbysodd yr Aelodau hefyd bod rhestr fer o fidiau wedi eu gwneud ar gyfer y gwasanaethau

Hamdden ac y gobeithid cyhoeddi'r gweithredwr yn gynnar ym mis Mai. Yn olaf, atgoffodd yr Aelodau o'r seminar ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar ddydd Mercher 29ain Ebrill a fyddai'n amlinellu'r cynnydd tuag at integreiddiad.

<b>8.</b>	<b>CYNLLUN DRAFFT POWYS YN UN – DIWEDDARIAD</b>	<b>CC43 – 2015</b>
-----------	---	--------------------

Ystyriodd y Cyngor ddiweddariad i Gynllun Powys yn Un. Roedd angen cywiriad ar dudalen 20, lle dylai'r pennawd ddarllen Priffyrdd. Gofynnwyd i'r Swyddogion gynyddu maint y print ar dudalen 7.

Holodd y Cynghorydd Alexander a fyddai'r mesur yn ymwneud â'r canran o adawyr blwyddyn 11 nad oeddynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant o lai na 3% yn ddigon ymestynnol o ystyried mai'r ffigur sylfaenol yn 2012/13 oedd 2.6%. Gofynnir i Ddeiliad y Portffolio Addysg, nad oedd yn bresennol, edrych ar y pwynt a godwyd gan y Cynghorydd Alexander a'i hateb, gan anfon copi at yr holl Aelodau. Yn amodol ar hyn, fe

<b>BENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm dros y Penderfyniad:</b>
<b>Cydnabod y cefndir a bod y diweddariad i Gynllun Powys yn Un 2015-16 yn Atodiad A i'r adroddiad a oedd wedi ei ffeilio gyda'r cofnodion a lofnodwyd yn cael ei gymeradwyo ar gyfer ei gyhoeddi.</b>	<b>Sicrhau bod y cyngor yn cyflawni'r ymrwymadau statudol fel yr amlinellwyd yn y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Rhan 1 a 2).</b>

Gadawodd y Cynghorydd Sir J. M. Williams y cyfarfod.

<b>9.</b>	<b>YMATEB I BAPUR GWYN LLYWODRAETH CYMRU DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL: GRYM I BOBL LEOL</b>	<b>CC44 – 2015</b>
-----------	---	--------------------

Ystyriodd y Cyngor ymateb i Bapur Llywodraeth Cymru Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.

Ystyriodd y Cyngor a chytuno'r newidiadau canlynol i'r ymateb drafft a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen.

#### Pennod 2 – Cydbwysu cyfrifoldebau Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol

Ychwanegu bwled dan y sylwadau:

Dylid rhoi 3ydd dyletswydd statudol ar gyfer datblygu'r economi i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

Datganodd y Cynghorydd Geraint Hopkins fuddiant fel Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac ymataliodd rhag pleidleisio.

#### Pennod 3 Adnewyddu democratiaeth

Newid bwled 3 i ddarllen:

Dylai arweinwyr ystyried dymunoldeb amrywiaeth wrth benodi eu Cabinet, yn enwedig mewn perthynas â'r iaith Gymraeg; fodd bynnag ni ddylid llyffethair rhyddid Arweinwyr i benodi yn ôl meini prawf cymhwysedd a phrofiad.

Newid sylw, bwled 4 i ddarllen

Cefnogir lleihau nifer y cynghorwyr yn unol â chyfartaledd y DU mewn egwyddor. Serch hynny, mae'r angen i ddiogelu mynediad at ddemocratiaeth yn awgrymu bod angen, mewn ardaloedd gwledig, cydbwyso maint y boblogaeth gyda maint daearyddol. Dylid talu sylw dyledus i ffiniau cymunedol penodol.

Bwled newydd yn ymwneud â pharagraff 3.5 'amrywiaeth ymhlith Cynghorwyr':

Caiff amrywiaeth ymhlith Cynghorwyr ei wasanaethu orau trwy sicrhau ei bod mor hawdd ag y bo modd i bobl i bob cefndir ac amgylchiadau sefyll fel Cynghorwyr. Dylid delio â hyn trwy gyfrwng taliadau, lwfansau gofal plant a chyfnodau gwasanaeth. Mater i'r etholaeth wedyn yw penderfynu pwy yr hoffent eu cynrychioli; ac ni ddylid cymryd unrhyw gamau i gyfeirio, tansellio neu gyfyngu'r rhyddid democrataidd hanfodol hwnnw.

#### Penodau 4 a 5 – Cysylltu gyda Chymunedau a Grymuso

Cryfhau'r ymateb yn ymwneud â'r heriau a wynebwr gan Gyngorau Cymuned gwledig bychan.

Newid y bwled yn delio ag aelodaeth ddeuol Cyngorau Sir a Thref a Chymuned i ddarllen:

DYLAI aelodau gwasanaethu Awdurdodau Lleol fedru dod y aelod o Gyngor Cymuned a pharhau gyda'u swydd yn yr Awdurdod Lleol.

Ychwanegu bwled ychwanegol:

Dylai fod adnoddau priodol o ran dyheadau ar gyfer amrywiaeth.

#### Pennod 8 – Cryfhau Rôl Arolygu

Ychwanegu bwled ychwanegol: Dylai adnoddau Llywodraeth Cymru fod ar gael i graffu arnynt yn rhanbarthol.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm dros y Penderyniad:</b>
<b>Cymeradwyo'r ymateb i Bapur Llywodraeth Cymru Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol yn amodol ar gynnwys y newidiadau a nodir uchod.</b>	<b>Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.</b>

Cyrhaeddodd y Cynghorydd T. J. Van Rees.

Cytunodd y Cadeirydd ddwyn yr eitem ganlynol ymlaen ar y rhaglen gan fod angen i Ddeiliad y Portffolio Gofal Cymdeithasol adael i fynd i gyfarfod arall.

<b>10.</b>	<b>CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD</b>	<b>CC50 – 2015</b>
------------	--	--------------------

**Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio Gofal Cymdeithasol gan y Cynghorydd Sir Graham Jones**



**Hoffwn ofyn i Mr Darren Mayor, Deiliad Portffolio Gofal Cymdeithasol, i esbonio i mi yn fanwl sut mae Powys yn cyrraedd y ffigwr o £189,000 y flwyddyn i redeg Canolfan Ddydd Llanidloes.**

*Roedd y £189,000 yn ddatganiad sefyllfa, ond yr amcanestyniad presennol o ran alldro ar gyfer y ganolfan yw £195,454.97 ar gyfer 2014/15.*

*Mae'r manylion isod yn cynnwys cyfrifiad manwl o'r holl gostau a briodolir i ganolfan ddydd Llanidloes ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15.*

*Bydd y ffigwr alldro terfynol ar gael ar 15fed Mai 2015.*

<u>Enw'r Cyfrif</u>	<u>Swydd</u>	<u>Enw'r Swydd</u>	<u>Gwir</u>
STAFF LLETY GORUCHWYLIO PRESWYL – CYFLOG			11,334.80
GOFALU/DOMESTIG – LLETY PRES. (CYFLOG)			80,009.51
GYRWYR – CYFLOG			18,322.01
STAFF LLETY GORUCHWYLIO PRESWYL – YSW GWLADOL			734.70
GOFALU/DOMESTIG – LLETY PRES (YSW GWLADOL)			3,734.78
GYRWYR – YSW GWLADOL			694.92
STAFF LLETY GORUCHWYLIO PRESWYL – PENSIWN			2,629.68
GOFALU/ DOMESTIG – LLETY PRES – PENSIWN			16,062.70
GYRWYR – PENSIWN			4,250.71
FFIOEDD MEDDYGOL			90.00
YSWIRIANT GWEITHWYR	FJ0013	AILGODIAD TAL YSWIRIANT GWEITHWYR	400.00
CYNNAL A CHADW CYFFREDINOL ADEILAD			1,309.25
GWASANAETH CREFFTSMON SYMUDOL			574.29
CYNNAL A CHADW TIROEDD			384.00
TRYDAN (AC EITHRIO CCL)			2,299.92
NWY (AC EITHRIO CCL)			3,745.94
Y DRETH GYNGOR			224.17
TALIADAU DŴR – MESURYDD			480.95
TALIADAU DŴR – AR WAHÂN I FESURYDD			44.79
DEUNYDDIAU GLANHAU/STORFA (PC)			219.52
YSWIRIANT EIDDO	FJ0016	AILGODIAD TAL YSWIRIANT EIDDO	250.00
YSWIRIANT			496.62
TANWYDD – TAL MEWNOL			223.22
TRWYDDED MODUR			0.00
Tanwydd – cyflenwr allanol			3,475.76
CERBYDAU TRWSIO A CHYNNAL A CHADW – CGU	SHZ096	ARBEDION FFLYD NORTHGATE (14/15)	0.00
CERBYDAU TRWSIO A CHYNNAL A CHADW – CGU			9,394.98
PEIRIANNAU A CHERBYDAU TRWSIO A CHYNNAL A CHADW (HEB FOD YN CGU)			13.75
LLOGI CERBYDAU			0.00
COSTAU TEITHIO – STAFF	SHZ106	ARBEDION TEITHIO 201415	0.00
COSTAU TEITHIO – STAFF			4,050.40
CLUDO CLEIENTIAID			0.00

CLUDIANT A LOGIR			7,460.62
YSWIRIANT CLUDIANT	FJ0014	AILGODIAD TAL YSWIRIANT CLUDIANT	1,220.00
OFFER CYFFREDINOL			38.74
LLESTRI AC OFFER			100.60
CYFFURIAU A CHYFLENWADAU MEDDYGOL			107.20
DODREFN			47.89
OFFER GLANHAU			90.44
ARGRAFFU			108.50
PAPURACH			49.65
COSTAU SWYDDFA CYFFREDINOL			267.79
DILLAD A LIFRAI – STAFF			151.36
LLIEINIAU			0.00
TALIADAU GALWADAU LLINELL FFÔN			38.48
CYNNAL A CHADW CYFRIFIADURON			0.00
POSTIO			19.02
FFONAU SYMUDOL			50.01
RHENTU LLINELL FFÔN			107.25
OFFER TAFLADWY ARLWYO			58.31
OFFER ARLWYO			200.49
IECHYD A DIOGELWCH			88.02
GOFAL AMHRESWYL (PRYDAU BWYD CLEIENTIAID)			12,537.21
AILGODI TAL ADRAN GYLLID	FJ0031	AILGODIAD TAL CYLLID	630.00
AILGODIAD TAL CYFREITHIOL	FJ0020	AILGODIAD TAL CYFREITHIOL	880.00
AILFODIAD TAL TG	FJ0002	AILGODIAD TAL TG	2,070.00
AILGODIAD TAL PERSONEL	FJ0018	AILGODIAD TAL ADNODDAU DYNOL	1,140.00
AILGODIAD TAL PRYNU CANOLOG	FJ0009	AILGODIAD TAL PRYNU	70.00
UNED IAITH GYMRAEG	FJ0010	AILGODIAD TAL IAITH GYMRAEG	10.00
RHEOLI COFNODION MODERN	FJ0008	AILGODIAD TAL COFNODION MODERN	50.00
BPU	CSBPUR	AILGODIADAU TAL BPU O & R	5,610.00
AILGODIAD TAL PROFI STATUDOL	FJ0064	AILGODIAD TAL PROFI STATUDOL	2,480.00
CASGLU GWASTRAFF ADRAN FEWNOL			730.08
GLANHAU EIDDO ADRAN FEWNOL	DP0010	CLG glanhau	4,009.52
FFIOEDD PROFFESIYNOL ADRAN FEWNOL	FJ0036	AILGODIAD TAL IECHYD GALWEDIGAETHOL	75.34
HYFFORDDIANT ADRAN FEWNOL			425.00
RHENTU ASEDAU TALIADAU CYFALAF			8,547.58
GWERTHU PRYDAU BWYD			-19,465.50
			<b>195,454.97</b>

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Jones ar beth oedd y costau ar gyfer ymgynghorwyr a swyddogion yn gweithio ar drosglwyddo'r ganolfan ddydd, cytunodd Deiliad y Portffolio ddarparu manylion y costau.

### **Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Gofal Cymdeithasol gan y Cynghorydd Sir Aled Davies**

**A fedr y Deiliad Portffolio Gofal Cymdeithasol Oedolion roddi esboniad clir a gonest mewn perthynas â methiant contract gofal cartref eto fyth?**

Alpha/Bryce Care

*Cymerwyd y penderfyniad i derfynu'r contract gydag Alpha/Bryce Care am hanner nos ar ddydd Mawrth 7 Ebrill 2015 ar ôl i bryderon difrifol gael eu mynegi ynglŷn â'u hyfywedd ariannol a'r effaith ar ddiogelu defnyddwyr gwasanaeth, pe byddai'r cwmni yn rhoi'r gorau i fasnachu heb roddi rhybudd ymlaen llawn i CSP.*

*Cafodd hyfywyedd cyffredinol y cwmni asesiad risg trylwyr a chymerwyd y penderfyniad i reoli'r sefyllfa yn rhagweithiol a throsglwyddo'r gwasanaeth yn fewnol ar ôl gwneud pob ymdrech i helpu Alpha/Bryce Care ddatrys eu problemau ariannol.*

*Roedd y penderfyniad yn seiliedig ar y meysydd allweddol canlynol:*

#### Hyfywyedd Ariannol

- *Roedd y cwmni ar nifer o achosion wedi bod angen ac wedi cael blaendal ariannol gan CSP am waith a ymgwymerwyd, i gyflawni eu hymrwymiaidau cyflogres.*
- *Roedd gan Alpha ddyledion sylweddol gan gynnwys dyledion i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac is-gontractwyr eraill gan felly gynyddu'r perygl i hyfywedd yr is-gontractwyr.*
- *Roedd cyfrifon y cwmni yn awgrymu y buasent yn cael anhawster i ad-dalu'r dyledion hyn.*
- *Roedd un o'r darparwyr is-gontract wedi cyflwyno hawliad statudol, o ganlyniad i ddiffyg talu dyled fawr, ac ataliwyd camau ansolfedd am 3 wythnos pan dalodd Alpha/Bryce Care daliad cychwynol o £. Roedd y 3 wythnos ar fin dod i ben, heb unrhyw awgrym y byddai'r gweddill yn cael ei dalu'n llawn. Dyna'r angen i CSP reoli'r sefyllfa'n rhagweithiol.*
- *Pryderon difrifol ynglŷn â rheolaeth ariannol gyffredinol Alpha Care ar ôl yr archwiliad ariannol a ymgwymerwyd gan CSP.*

#### Sicrhau Ansawdd / Diogelu

- *Roedd adroddiad archwilio gan AGGCC yn amlygu nifer o bryderon gyda'r cwmni, yn enwedig nifer y galwadau a fethwyd*
- *Mae'r asiantaeth wedi methu ag adrodd am alwadau a fethwyd i'r cyngor trwy gyfrwng y trefniadau adrodd am alwadau a fethwyd a gytunwyd.*
- *Pryderon ynglŷn â sut cedwid rotas cywir i ddangos sifftiau a gynlluniwyd ac a gyflawnwyd ac unrhyw newdiadau sydd eu hangen (e.e. mewn achosion o salwch, gwyliau ac ati).*

#### Cynllunio wrth gefn

- *Roedd Cynllun Wrth Gefn eisoes yn bodoli ond fe ddiwygiwyd hyn a'i adolygu oherwydd sefyllfa ariannol y cwmni.*
- *Roedd y Cynllun yn destun asesiad trwyadl yn fewnol a chan AGGCC, a oedd yn fodlon gyda'r trefniadau cynlluniau wrth gefn.*
- *Roedd Cynllun Gweithredu Cyfathrebu yn rhan o'r Cynllun Wrth Gefn.*

- *Roedd Tîm Cynllunio Wrth Gefn yn cynnwys uwch reolwyr a staff ategol yn bodoli, i reoli a chydgysylltu'r trosglwyddiad.*
- *Cyflwynwyd hysbysiad am 1.00pm ar ddydd Mawrth 7 Ebrill a daeth i rym am hanner nos ar yr un diwrnod.*
- *Ar brynhawn 7 Ebrill, daeth y cynllun i rym:*
  9. *Cysylltwyd â defnyddwyr gwasanaeth a staff Alpha/Bryce ar yr un pryd i'w hysbysu o'r datblygiadau.*
  10. *Hysbyswyd staff Alpha/Bryce y byddent yn trosglwyddo i CSP ac yn parhau i weithio fel arfer. Trosglwyddodd mwy na 90% o'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r Cyngor.*
  11. *Y noson honno a'r bore canlynol, galwyd defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau eu bod wedi derbyn gwasanaeth y diwrnod blaenorol. Galwyd hwy eto y diwrnod canlynol i sicrhau eu bod wedi derbyn gwasanaeth.*
  12. *Adnabuwyd 4 galwad a fethwyd dros y penwythnos ac fe anfonwyd gweithiwr arall atynt.*
  13. *Roedd yr wybodaeth ar y rhestr ddyletswyddau a ddarparwyd gan Alpha/Bryce Care gan CSP ac o ganlyniad roedd tîm ailalluogi CSP neu ddarparwyr gofal cartref eraill wedi delio ag unrhyw fylchau yn y rhestr gweithiwr – defnyddiwr gwasanaeth.*
  14. *Roedd CSP, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn cysylltu â'i gilydd bob dydd ac yn medru, o ganlyniad, rheoli unrhyw broblemau gweithlu trawsffiniol.*
  15. *Mynychodd staff Alpha/Bryce 3 canolfan galw heibio ledled y sir, lle cawsant adroddiad ar y sefyllfa. Rhoddwyd dillad amddiffynnol, llawlyfr CSP, dalennau amser ac ati iddynt ac o ganlyniad i'r sesiynau hyn, roedd CSP yn medru casglu mwy o wybodaeth ar y rhestri dyletswyddau unigol.*
  16. *Mae'r tîm wrth gefn yn datblygu rhestri dyletswyddau 4 wythnos ar gyfer yr holl staff sydd wedi trosglwyddo.*

#### Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot

- *Cafwyd galwadau cynhadledd dyddiol am fwy na phytnefnos, o ganlyniad i'r pryderon roedd gan y 3 chyngor ynglŷn â gofal Alpha/Bryce Care ar faterion diogelu a hyfywedd ariannol.*
- *Tynnodd CNPT eu contractau gwasanaeth unigol yn ôl ar 1 Ebrill yn seiliedig ar eu hasesiad hyfywedd ariannol ac nid o ganlyniad i unrhyw gamau a gymerwyd gan CSP; ni therfynodd CSP hyd at 7 Ebrill.*
- *Tynnodd Abertawe eu contractau gwasanaeth unigol yn ôl ar 8/9 Ebrill.*
- *Mae'r trefniadau gwaith partneriaeth wedi bod yn amhrisiadwy ac wedi galluogi lliniaru risgiau posibl trawsffiniol.*

Cytunodd Deiliad y Portffolio roddi ymateb i gwestiwn atodol y Cyngorydd Davies ar y canlyniadau ariannol i'r gwasanaeth o ganlyniad i'r contract yn chwalu.

**Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio Gofal Cymdeithasol gan y Cyngorydd Sir Gareth Morgan**

**A fedr y Deiliad Portffolio ddweud os yw'n fwriad ganddo o hyd i gau Canolfan Ddydd Llanidloes ym Maes y Wennol trwy dynnu cyllid y Cyngor Sir yn ôl. Os felly, a fedr ddweud pryd y bydd yn cau? Os oes ganddo unrhyw gynlluniau amgen i'w chadw ar agor gyda chymorth allanol, a fedr ddisgrifio yn union beth ydynt a chyda phwy y maent yn cael eu trafod, a pha mor bell y mae'r trafodaethau wedi mynd?**

*Penderfynodd Cyngor Sir Powys dynnu buddsoddiad yn ôl o gyflwyno Canolfannau Dydd Pobl Hŷn yn uniongyrchol a gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector a Chynghorau Cymuned i ganfod mecanweithiau cyflenwi amgen. Dymuna'r Cyngor adnabod darparwyr gwasanaeth amgen ar gyfer y canolfannau dydd canlynol: Ystradgynlais, Aberhonddu, Crucywel, Llandrindod, Llanidloes, Y Drenewydd, Y Trallwng. Nid yw'r penderfyniad hwn wedi newid.*

*Medraf gadarnhau y bydd y Ganolfan Ddydd yn Llanidloes yn parhau i redeg ar ei ffurf bresennol ym mlwyddyn ariannol 2015/16. Mae swyddogion y Cyngor eisiau dechrau gwaith yn ardal Llanidloes yn ystod 2016, gyd threfniadau amgen yn dod i rym erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2016/17.*

*Pe byddai grŵp lleol yn cysylltu gyda diddordeb mewn rhedeg Canolfan Ddydd Llanidloes, yna byddwn yn hapus iawn i gyfarfod gyda hwy ac ystyried grant referniw. Nid oes unrhyw drafodaethau wedi dechrau yn y maes hwn hyd yma.*

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cyngorydd Morgan ynglŷn â lefel y cyfraniad y byddai'r Cyngor yn ei wneud i unrhyw grŵp sydd eisiau rhedeg y ganolfan, dywedodd Deiliad y Portffolio bod £500,000 ar gael hyd i gynorthwyo gyda thrawsffurfio gwasanaethau canolfan ddydd.

Gadawodd Maer y Cyngor Sir y cyfarfod.

11.	<b>CYNLLUN DATBLYGU LLEOL POWYS – CYNLLUN ADNEUO AC ADRODDIADAU ASESU</b>	<b>CC45 – 2015</b>
-----	---	--------------------

Ystyriodd y Cyngor gynllun adneuo Cynllun Datblygu Lleol Powys a'r adroddiadau asesu. Diolchodd y Deiliad Portffolio Adfywio i'r Deiliaid Portffolio blaenorol, aelodau'r Gweithgor Cynllun Datblygu Lleol a'r Arweinydd Proffesiynol Polisi Cynllunio a'i dîm am eu gwaith, gan gynnwys ystyried a datblygu'r sylfaen tystiolaeth gefnogol i'r Cynllun Datblygu Lleol a ddefnyddiwyd i fwydo gwybodaeth i'r cynllun adneuo. Dywedodd, pe cawsai ei gymeradwyo, y byddai cyfnod ymgynghori 6 wythnos yn dechrau ym mis Mehefin a rhoddodd sicrhad y byddai'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwnnw yn cael eu hystyried yn brydlon. Rhagwelwyd y byddai'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael e gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ym

mis Rhagfyr 2015 a'i fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2016. Byddai'r Cynllun Datblygu Unedol yn dod i ben ddiwedd mis Mehefin 2016 a rhwng hynny a dyddiad mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol byddai'r Cyngor yn dibynnu ar ystyriaethau cynllunio perthnasol gan gynnwys cysyniadau'r gorffennol, polisiau yn y Cynllun Datblygu Unedol presennol ac unrhyw Bolisiau newydd a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth a gynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Byddai'r Cyngor felly mewn sefyllfa gref i amddiffyn unrhyw benderfyniadau Cynllunio tra bo'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei fabwysiadu.

PENDERFYNWYD	Rheswm dros y Penderfyniad:
<p>4. <b>Cymeradwyo'r canlynol i ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus:</b></p> <p>c) <b>Cynllun Datblygu Lleol Drafft Adneuo (Atodiadau 1 a 2).</b></p> <p>d) <b>Adroddiadau Asesu ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Drafft Adneuo (Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad Rheoliadau Cynefin, Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Atodiadau 3, 4 a 5)</b></p>	<p><b>I gydymffurfio gyda:</b></p> <p><b>Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005</b></p> <p><b>Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.</b></p> <p><b>Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.</b></p> <p><b>Cytundeb Cyflenwi Cynllun Datblygu Lleol.</b></p>
<p>5. <b>Bod y Cabinet yn cael pwerau dirprwyedig i gytuno ar ymatebion y Cyngor i sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod adneuo a chyfnodau ymgynghori wedi hynny;</b></p> <p>6. <b>Bod unrhyw faterion sydd angen penderfyniad yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus yn cael eu dirprwyo i'r Arweinydd Proffesiynol - Polisi Cynllunio, mewn ymgynghoriad â'r Deiliad Portffolio Adfywio a Chynllunio.</b></p>	<p><b>2 &amp; 3 I sicrhau cymryd penderfyniad mewn modd amserol.</b></p>

12.	<b>ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</b>	<b>CC46 – 2015</b>
-----	--	--------------------

### **Datblygu Aelodau – Datblygiad Gorfodol ac Anorfodol**

Ystyriodd y Cyngor argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democritaidd ar hyfforddiant gorfodol ac anorfodol. Ar ôl trafodaeth ar nifer y dyddiau datblygu

Aelodau a oedd yn cael eu trefnu a'r nifer lleiaf yr oedd angen i'r Aelodau eu mynychu ac fe

<b>BENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm dros y Penderfyniad:</b>
<b>Gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd ystyried hyn eto.</b>	<b>I roddi ystyriaeth bellach i'r mater.</b>

Gohiriwyd y Cyngor o 1.20 hyd at 2.00p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Sir L.R.E. Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir D. Bailey, R.G. Brown, J.H. Brunt, L.V. Corfield, A.W. Davies, D.E. Davies, E.R. Davies, S.C. Davies, S. Davies, D.O. Evans, W.J. Evans, M.R. Harris, P. Harris, S.M. Hayes, A. Holloway, J.C. Holmes, G.G. Hopkins, D.R. Jones, E.M. Jones, G.M. Jones, J.R. Jones, M.J. Jones, W.T. Jones, H. Lewis, S. McNicholas, P.J. Medicott, E.T. Morgan, W.J.T. Powell, D.R. Price, P.C. Pritchard, K.M. Roberts-Jones, J.G. Shearer, K.F. Tampin, A.G. Thomas, D.A. Thomas, R.G. Thomas, T.G. Turner, T.J. Van Rees, G.P. Vaughan, D.H. Williams, G.I.S. Williams, S.L. Williams ac A. York.

Cytunodd y Cadeirydd gymryd y gadair ar gyfer yr eitem nesaf gan fod angen i Ddeiliad y Portffolio adael.

<b>13.</b>	<b>CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD</b>	<b>CC46 – 2015</b>
------------	--	--------------------

**Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Adnoddau Dynol gan y Cynghorydd Sir H. Williams.**

**Faint o brentisiaid a hyfforddeion graddedig a gyflogwyd ar hyn o bryd gan y Cyngor Sir?**

*Rydym wedi cyrraedd y targed ar gyfer eleni gydag 16 o bobl ifanc yn dilyn fframweithiau prentisiaeth yn y meysydd canlynol: Priffyrdd (3), Gweinyddiaeth Fusnes (TGCh (3), Dylunio Graffig (1) a Gofal Plant / Cymorth Dysgu (9).*

*Ar hyn o bryd, mae'r Adran Gynllunio yn ystyried recriwtio Prentis Dechnegydd; mae Rheoli Cyfleusterau eisiau recriwtio 2 brentis masnach ac mae Adnoddau yn gobeithio recriwtio 3.*

*Mae Academi Ieuencid Powys hefyd yn gweithio gydag Alun Griffiths Contractors i recriwtio prentisiaid yn lleol (2 Beiriannydd Sifil, Peirianwyr Peiriannau, Gweithwyr Tir, Gweithredwyr Peiriannau) ar gyfer prosiect ffordd osgoi'r Drenewydd a sefydlu Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer oes y prosiect. Bydd hyn yn galluogi i'r cwmni gyflogi swyddog datblygu i hybu Adeiladu/Peirianneg yn yr ysgolion yn yr awdurdod. Bydd cyfleoedd profiad gwaith ar gael hefyd.*

*Mae trafodaethau ar y gweill hefyd yn glŷn â'r posibilrwydd o ddatblygu cynllun prentisiaeth a rennir. Mae'r cynllun yn gweithio fel cynllun Prentisiaeth Fodern, gan ei fod yn cynnig cyfle i berson ifanc ymgymryd â hyfforddiant naill ar Lefel 2 neu 3 NVQ dan amrywiol fframweithiau a gydnabyddir gan y Diwydiant Adeiladu a lle byddai dau gyflogwr neu fwy yn rhannu prentis.*

*Manteision allweddol hyn yw:*

- *Caniatáu i gyflogwyr llai gael cyfle i gynnig prentisiaeth; yn y gorffennol efallai na fedrent oherwydd gofynion y fframwaith cyflenwi.*
- *Mae'n rhoi profiad gydag amrywiol gyflogwyr i berson ifanc.*
- *Mae'n annog cyflogwyr i weithio gyda'i gilydd gan fod angen iddynt gytuno ar swydd-ddisgrifiad a chyflog a gytunir.*

*Mae'r syniad hwn wedi ei gyflawni yn llwyddiannus iawn eisoes yn Sir Gaerfyrddin a gobeithir y bydd cyfle i'w ehangu ymhellach ledled Powys gyda chontractwyr sydd wedi cael contractau mawr gan yr Awdurdod.*

*Cyn belled ag y mae Academi Ieuencid Powys yn ymwybodol, dim ond un person graddedig a gyflogir gyda'r Awdurdod, yn y tîm Cyfathrebu. Fodd bynnag, cyflogwyd 7 yn ddiweddar dan gynllun Go Wales mewn Twristiaeth (3), Safonau Masnach (2), Newid a Llywodraethu a Chymorth Busnes. (Mae lleoliad gwaith Go Wales yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi cyfle i gyflogwyr gyflogi rhywun gyda gradd (neu'n astudio i gael gradd) i gwblhau prosiect penodol tra'n gweithio iddynt am rhwng 6 a 10 wythnos. Gall y cyflogwr hawlio cyfran o'r gyflog a delir i'r unigolyn yn ôl yn ystod y lleoliad).*

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Williams, cadarnhaodd Deiliad y Portffolio iddo ofyn i'r adran AD ddyrannu person penodol i ddelio â phrentisiaethau yn y Cyngor. Cyfeiriodd at y cyhoeddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru bod £146m ar gael ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru ond 'doedd dim wedi ei glustnodi ar gyfer Powys. Byddai'n codi hyn gydag Aelodau Cynulliad Powys. Dywedodd hefyd ei fod eisiau i brentisiaid a oedd wedi cwblhau eu 3 blynedd gael eu hystyried ar gyfer swyddi gwag.

Gadawodd y Cynghorydd Sir Phil Pritchard y cyfarfod.

<b>14.</b>	<b>ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</b>	<b>CC46 – 2015</b>
------------	--	--------------------

### **Pwyllgorau Craffu**

Ystyriodd y Cyngor argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar addasu meysydd cyfrifoldeb y Pwyllgorau Craffu a newid enw'r Pwyllgor Amgylchedd, Seilwaith a Throsedd ac Anhrefn.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm dros y Penderfyniad:</b>
<p><b>(i) cymeradwyo'r meysydd cyfrifoldeb diwygiedig ar gyfer y pwyllgorau craffu a nodwyd yn yr Atodiad i'r adroddiad a'u cynnwys yn y Cyfansoddiad newydd.</b></p>	<p><b>(i) adolygu meysydd cyfrifoldeb ar gyfer pwyllgorau craffu, a</b>  <b>(ii) newid enw Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd, Seilwaith a Throsedd ac Anhrefn.</b></p>



(ii) newid enw Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd, Seilwaith a Throsedd ac Anhrefn yn Bwyllgor Craffu Lle.	
--	--

13.	<b>PENODI AELODAU CYFETHOLEDIG I'R PWYLLGOR CRAFFU POBL A PHENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU</b>	<b>CC47 – 2015</b>
-----	---	--------------------

Ystyriodd y Cyngor benodi aelod cyfetholedig i'r Pwyllgor Craffu Pobl ac Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm dros y Penderfyniad:</b>
(i) Bod y Cyngor yn cymeradwyo penodiad Margaret Evitts a Lorraine Jenkin fel aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Craffu Pobl. (ii) bod y Cyngor yn ailbenodi Mrs Helen Rhydderch-Roberts fel Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair blynedd yn dod i ben ar 13eg Mai, 2019.	(i) Llenwi swyddi gwag ar gyfer cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru a Rheini-Lywodraethwyr ar y Pwyllgor Craffu Pobl. (ii) Llenwi swydd wag Aelod Annibynnol ar y Pwyllgorau Safonau.

14.	<b>PENODIADAU I BWYLLGORAU GAN GRWPIAU GWLEIDYDDOL A GYMERADWYWYD GAN Y SWYDDOG MONITRO</b>	<b>CC48 – 2015</b>
-----	---	--------------------

Cydnabu'r Cyngor benodiad y Cynghorydd Sir Tony Thomas i'r Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau a'r Cynghorydd Sir Geraint Hopkins i'r Pwyllgor Archwilio gan Gynghair Annibynnol Powys yn lle'r Cynghorydd Sir John Brunt.

15.	<b>CYFANSODDIAD NEWYDD</b>	<b>CC49 – 2015</b>
-----	----------------------------	--------------------

Ystyriodd y Cyngor Adrannau'r Cyfansoddiad newydd.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm dros y Penderfyniad</b>
Cymeradwyo adrannau canlynol y Cyfansoddiad newydd i ddod i rym unwaith y bydd y Cyfansoddiad newydd cyfan wedi ei gytuno gan y Cyngor: Adran 11 – Swyddogion Adran 14 – Rheolau'r Drefn Mynediad at Wybodaeth	Cytuno adrannau'r Cyfansoddiad newydd.

Adran 15 – Rheolau Trefniadau'r Gyllideb	
Adran 16 – Rheolau Trefniadau Ariannol	
Adran 22 – Cod Chwythu'r Chwiban Adrodd yn Gyfrinachol	

16.	CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD	CC50 – 2015
-----	-------------------------------------	-------------

**Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio Amgylchedd a Chynaliadwyedd gan y Cynghorydd G.M. Jones**

Yn ddiweddar, amlinellodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth bwysigrwydd Twristiaeth i Ganolbarth Cymru, gan ddweud mai Twristiaeth yw'r diwydiant blaenaf yng Nghymru. Mae Rali GB Cymru wdi ennill Gwobr Twristiaeth Digwyddiad Mawr Gorau, gan gynhyrchu mwy na £10 miliwn i'r economi yng Nghymru.

Mae gan holl Gynghorwyr Sirol Powys ryw fath o Dwristiaeth yn eu ward.

Caiff ceir rali eu hadeiladu ym Mhowys, gwerthir beiciau modur, mae busnesau yn cyflenwi darnau i'r diwydiant ac ati, ac mae digwyddiadau modurol yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr sy'n cynhyrchu busnes i westai a sefydliadau gwely a brecwast yn yr ardal.

Bu pryder am lawer o flynyddoed gan sefydliadau chwaraeon modur, o'r fath fel bod y pryderon hyn wedi eu cyfeirio'n uniongyrchol at Edwina Hart, Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Gall trefnu digwyddiadau fod, ac maent yn mynd, yn hunllef i glybiau.

Mae'n hysbys hefyd bod y Gweinidog wedi ysgrifennu llythyrau deifiol at Gyngor Sir Powys fwy nag unwaith yn mynegi pryderon dwys y gallai agwedd y Cyngor achosi anfantais economaidd i Bowys ar fater pwysig iawn Twristiaeth.

Roedd y Gweinidog wedi dweud nad yw wedi derbyn unrhyw gwynion gan unrhyw Gyngor arall ar y mater hwn.

**Fy nghwestiwn fyddai un i Ddeiliad Portffolio Hawliau Tramwy.**

Tra bod y pryderon hyn yn hysbys i bobl yn y maes Chwaraeon Modur, pryd y mae holl Gynghorwyr Sir Powys yn mynd i gael briffiad ar bryderon Edwina Hart, gan ei bod yn ymddangos bod Trwyddedau Adran 33 yn cael eu cyflwyno gan Gynghorau eraill gan yr Adran Briffyrdd, ond ym Mhowys, yr Adran Hawliau Tramwy sydd wedi bod yn gwneud hynny. Felly, beth sy'n mynd i gael ei wneud mewn perthynas â phryderon y Gweinidog i ddiogelu dyfodol Chwaraeon Modur a Thwristiaeth a lles busnesau ym Mhowys?

*Mae'r Cabinet a'r Arweinydd wrth gwrs yn gefnogol iawn i chwaraeon modur a drefnir ym Mhowys.*

*Rwyf i, ac aelodau eraill y Cabinet wedi cyfarfod â'r trefnwyr ac wedi gweld arferion gorau yn ddiweddar. Wrth roddi awdurdod adran 33, byddwch wrth gwrs yn ymwybodol bod angen i'r Cyngor Sir sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth arall. Yn benodol, mae'n hanfodol bod y Cyngor yn sicrhau bod hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu gwarchod, i ddiogelu'r cyhoedd sy'n eu defnyddio a bod unrhyw niwed i'w arwynebau yn cael ei drwsio.*

*At hyn, mae gan yr awdurdod rôl o ran amddiffyn unrhyw Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a effeithir gan geisiadau chwaraeon modur, sy'n gofyn i'r trefnwyr ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru, a hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cyngor yn gwneud hynny. Yn anffodus, er gwaethaf y ffurflen gais sy'n gofyn am dystiolaeth o ymgynghori gyda Chyfoeth Naturiol Cymru cyn gwneud cais, anaml y darperir hyn sy'n golygu bod angen rhuthro'r ymgynghoriad a cheisio gwybodaeth ar frys.*

*Mae'n nodedig bod Cyngor Sir Ceredigion yn ddiweddar wedi mabwysiadu agwedd yr awdurdod hwn o ran gofyn am sicrhau gan drefnwyr bod safleoedd bywyd gwyllt statudol yn cael eu gwarchod, ac maent hwythau nawr yn ymgynghori'n uniongyrchol â Chyfoeth Naturiol Cymru hefyd.*

*Wrth geisio awdurdod gan y Cyngor, rhaid i ymgeiswyr hefyd yn gyfreithiol ddarparu tystiolaeth o ganiatâd tirfeddianwyr. Yn anffodus, mae'n gyffredin iawn nad yw ymgeiswyr yn cyflwyno caniatâd tirfeddianwyr, nac yn ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod SDdGA neu safleoedd eraill a warchodir yn cael eu hamddiffyn. Nid yw'n anghyffredin derbyn cais gydag ond ychydig ddyddiau i fynd cyn y digwyddiad. Rwy'n gwbl ymwybodol, wrth geisio cydymffurfio â'r gyfraith, bod hyn yn medru golygu oedi.*

*O ran lle dylai'r broses o wneud cais syrthio, gan fod y prosesu yn ymwneud â materion amgylcheddol megis gwarchod hawliau tramwy cyhoeddus a chynefinoedd a rhywogaethau a amddiffynnir, trosglwyddwyd y mater hwn i'r Gwasanaeth Hawliau Tramwy beth amser yn ôl. Gan nad yw'n effeithio rheolaeth ffyrdd cyhoeddus, nid oes rheswm i newid y trefniadau rheoli.*

*Rwyf wedi cyfarwyddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol i ofyn am gyngor annibynnol pellach ar rai o'r materion, i weld sut medrwn symleiddio'r prosesau dan sylw, os medrwn, ac i gael esboniad pellach ar y manylion cyfreithiol.*

*Unwaith y bydd y mater hwn wedi ei gwblhau, rwy'n bwriadu cyfarwyddo swyddogion i ysgrifennu at holl drefnwyr chwaraeon modur hysbys gyda chanllawiau wedi eu diweddarau ar y materion allweddol. Rwyf hefyd yn bwriadu ei gwneud yn glir ar y ffurflen gais yr hyn a ddisgwylir gan ymgeiswyr mewn dull blwch ticio, ac y bydd ceisiadau ond yn cael eu prosesu os bydd yr holl wybodaeth yn cael ei derbyn gyda'r cais.*

*Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Jones o ran a ellid briffio'r holl Gynghorwyr ar y mater hwn a chael gweld yr ohebiaeth gan y Gweinidog, cytunodd*

Deiliad y Portffolio bod angen datrys y mater a dywedodd ei fod wedi gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol.

### **Cwestiwn i Ddeiliad Portffolio Gofal Cymdeithasol gan y Cyngorydd Sir Gary Price**

**O ystyried bod Cyngor Sir Powys nawr wedi terfynu contractau dau o'r pedwar darparwr gwasanaeth gofal cartref, a fedr yr arweinydd ateb y cwestiynau canlynol:**

- 1. Faint o dalodd Cyngor Sir Powys am wasanaethau'r cwmni (Smart Sourcing PLC) i ymgymryd â'r gwaith comisiynu ar gyfer y gwasanaethau gofal cartref?**
- 2. A wnaeth Cyngor Sir Powys gynorthwyo Alpha Home Care yn ariannol cyn terfynu ei gontract?**
- 3. Faint o gymorth ariannol a roddodd Cyngor Sir Powys i Alpha Home Care, ac a yw wedi ei ad-dalu?**
- 4. Rhwng 1af Medi 2010 a 1af Mehefin 2014 (pan ddaeth gwaith y contractwr i'r cyngor i ben), talwyd £136,735 i Smart Sourcing mewn perthynas â'r gwaith a gwblhawyd ganddynt ar y tendr Gofal Cartref.*
- 5. Rhoddodd Cyngor Sir Powys gymorth ariannol i Alpha Care gyda swm arian i gynorthwyo gyda'i lif arian ym mis Awst 2014 er mwyn amddiffyn cyflenwad gwasanaeth a sicrhau bod cyflogau gweithwyr yn cael eu talu.*
- 6. Y swm ariannol a roddwyd ym mis Awst 2014 oedd £50,000 ac fe'i awdurodwyd gan swyddogion yn y gwasanaeth fel penderfyniad gweithredol. Mae'r swm hwn wedi ei adennill mewn taliad yn ddiweddar.*

**L.R.E. DAVIES  
CADEIRYDD**